Think Global!

Fostering Global Competence in Schools

2019-1-ES01-KA201-064256

Newsletter 2 ***March 2020***

Our Project Milestones

Cerrig milltir ein prosiect

Global Competence

Cymhwysedd Byd-eang

Sustainable Development Goals

Nodau Datblygu Cynaliadwy

Project-based Learning

Dysgu Seiliedig ar Brosiectau

Global competence is the skills, values, and behaviours that prepare young people to thrive in a more diverse, interconnected world. In a rapidly changing world, the ability to be engaged citizens and collaborative problem solvers who are ready for the workforce is essential.

Cymhwysedd byd-eang yw'r sgiliau, y gwerthoedd, a'r ymddygiadau sy'n paratoi pobl ifanc i ffynnu mewn byd mwy amrywiol a chyd-gysylltiedig. Mewn byd sy'n newid yn gyflym, mae'r gallu i fod yn ddinasyddion ymgysylltiedig a datryswyr problemau cydweithredol sy'n barod ar gyfer y gweithlu yn hanfodol.

Click here to download it



This publication sets forward a new framework for global competence developed by OECD, which aligns closely with the definition developed by the Center for Global Education, and provides practical guidance and examples of how educators can embed global competence into their existing curriculum, instruction, and assessment.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnig fframwaith newydd ar gyfer cymhwysedd byd-eang a ddatblygwyd gan OECD, fframwaith sy'n cyd-fynd yn fanwl â'r diffiniad a ddatblygwyd gan y Ganolfan er Addysg Fyd-eang, ac sy'n darparu cyfarwyddyd ymarferol ac enghreifftiau o'r modd y gall addysgwyr ymgorffori cymhwysedd byd-eang yn eu cwricwlwm, eu haddysgu a'u hasesu cyfredol.

The **Sustainable Development Goals** (**SDGs**), also known as the Global Goals, were adopted by all United Nations Member States in 2015 as a universal call to action to end poverty, protect the planet and ensure that all people enjoy peace and prosperity by 2030. The **SDGs** are a collection of 17 global goals designed to be a "blueprint to achieve a better and more sustainable future for all". The goals are broad based and interdependent.

Mabwysiadwyd y **Nodau Datblygu Cynaliadwy** (NDCau), a adwaenir hefyd fel y Nodau Byd-eang, gan holl Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig yn 2015 fel galwad cyffredinol i weithredu er mwyn dileu tlodi, diogelu'r blaned a sicrhau bod yr holl bobl yn mwynhau heddwch a ffyniant erbyn 2030. Mae'r **NDCau** yn gasgliad o 17 nod byd-eang a luniwyd i fod yn 'lasbrint i gyflawni dyfodol gwell a mwy cynaliadwy i bawb". Mae'r nodau'n eang ac yn gyd-ddibynnol.

Project-based learning (**PBL**) is a student-centered pedagogy that involves a dynamic classroom approach in which it is believed that students acquire a deeper knowledge through active exploration of real-world challenges and problems. Students learn about a subject by working for an extended period of time to investigate and respond to a complex question, challenge, or problem. It is a style of active learning and inquiry-based learning. PBL contrasts with paper-based, rote memorization, or teacher-led instruction that presents established facts or portrays a smooth path to knowledge by instead posing questions, problems or scenarios.



Source: Essential Elements of Project Based Learning. Lorin Mayo, 2013

Mae **dysgu seiliedig ar brosiectau** (**PBL**) yn addysgeg sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr gan fabwysiadu dull deinamig yn yr ystafell ddosbarth. Trwyddo credir bod myfyrwyr yn caffael gwybodaeth fwy manwl drwy fynd ati i archwilio heriau a phroblemau o'r byd go iawn. Mae myfyrwyr yn dysgu am bwnc drwy weithio am gyfnod estynedig i archwilio ac ymateb i gwestiwn, her neu broblem gymhleth. Mae'n ddull dysgu gweithredol a dysgu seiliedig ar ymholi. Mae PBL yn cyferbynnu â dysgu ar y cof yn seiliedig ar bapur, neu addysgu dan arweiniad athrawon sy'n cyflwyno ffeithiau sefydledig neu'n cyflwyno llwybr llyfn at wybodaeth, drwy osod cwestiynau, problemau neu senarios yn lle hynny.

Training course in Barcelona

From the 10th to the 14th of February, we held a training course for staff of the project institutions in Barcelona. This training activity combined theoretical aspects, practical workshops and visits to schools.

We had a conference on global competence by Natalie Foster, OECD analyst and responsible for the PISA 2018 global competition assessment framework. We visited several primary and secondary schools in Barcelona that work on projects and we conducted a methodological workshop on project-based learning.

This course has been a starting point in the creation of the materials that will form one of the intellectual outputs of the project: a Toolkit for teachers on global competence, with theoretical references and practical projects.

Cwrs hyfforddi yn Barcelona

O 10 i 14 Chwefror, cynhaliom gwrs hyfforddi i staff sefydliadau'r prosiect yn Barcelona. Roedd y gweithgaredd hyfforddi hwn yn cyfuno agweddau damcaniaethol, gweithdai ymarferol ac ymweliadau ag ysgolion.

Cawsom gynhadledd ar gymhwysedd byd-eang gan Natalie Foster, dadansoddwr yr OECD a fu'n gyfrifol am fframwaith asesu cymhwysedd byd-eang PISA 2018. Aethom ar ymweliad â nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn Barcelona sy'n gweithio ar brosiectau a chynhaliom weithdy methodolegol ar ddysgu seiliedig ar broblemau.

Mae'r cwrs wedi bod yn fan cychwyn i greu'r deunyddiau a fydd yn ffurfio un o gynnyrch deallusol y prosiect: Pecyn offer i athrawon ar gymhwysedd byd-eang, gyda chyfeiriadau damcaniaethol a phrosiectau ymarferol.

Our website

We already have our Project website. You can access it from the link below or scanning the QR code.

You will find information on the project, a summary, the objectives, newsletters and the outputs we are developing.

SCAN ME

Ein gwefan

Mae gennyn wefan i'r Prosiect eisoes. Cewch fynediad iddi o'r ddolen isod neu drwy sganio'r cod QR.
Yno cewch wybodaeth am y prosiect, crynodeb, y nodau, cylchlythyron a'r cynnyrch rydym yn eu datblygu.

https://blocs.xtec.cat/thinkglobal/

Our Partnership

Ein partneriaeth

Generalitat de Catalunya
Departament d'Educació
Inspecció d'Educació a Barcelona

INSTITUT VILADOMAT

atheneum campus UNESCO KOEKELBERG

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Scholengroep BRUSSEL

Ysgol Gymunedol Doc Penfro
Pembroke Dock Community School

IDP Institut de Desenvolupament Professional
UNIVERSITAT DE BARCELONA

ice

Erasmus+

Co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union